

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Rheolwr Busnes

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH
ACGChC

Yn yr ACGChC  rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**






**Cyflog:** PS7 (SCP 41-43)
£54,143 - £56,293

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:**– Parc Menai, Bangor / Conwy / Helygain

**Dyddiad cau:** 10am, 26/11/2026

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

Ymgeisiwch

# Pwrpas y swydd

Bydd y Rheolwr Busnes yn darparu arweinyddiaeth strategol, cydlyniant a throsolwg o gefnogaeth busnes, ansawdd, llywodraethu gwybodaeth, rheoli fflyd a chydymffurfiaeth contractau'r Asiant.

Bydd gan y Rheolwr Busnes gyfrifoldeb rheoli cyffredinol ar gyfer y Rheolwr Datblygu a Chefnogi Busnes, y Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Gwybodaeth a Fflyd, a'r Rheolwr Archwilio.

Bydd y Rheolwr Busnes yn atebol i'r Rheolwr Uned Busnes a Gweithrediadau ac yn sicrhau bod pob swyddogaeth yn gweithredu'n gydlynus, effeithlon ac yn unol ag amcanion, safonau ISO a rhwymedigaethau statudol yr Asiant.




Bydd y Rheolwr Busnes yn darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth weithredol ar draws y meysydd swyddogaeth a ganlyn:

Rheolwr Datblygu a Chymorth Busnes (12 aelod o staff)
Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Gwybodaeth, gan gynnwys cyfrifoldeb am Fflyd yr Asiantaeth (2 aelod o staff)
Rheolwr Archwilio (2 aelod o staff)

Bydd y Rheolwr Busnes yn sicrhau rheolaeth perfformiad, cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a safonau, dyraniad adnoddau effeithlon, a gwelliannau parhaus ar draws yr holl swyddogaethau a reolir.

Bydd pob rheolwr swyddogaethol yn adrodd yn uniongyrchol i'r Rheolwr Busnes.

Cyfrifoldeb cyffredinol am yr offer TG (Gliniadur a Ffôn Symudol) a'r cronfeydd data sydd eu hangen i gyflawni'r rôl.



# Manylion Person

## Nodweddion personol

### Hanfodol

Hyderus, cydwybodol, gallu gweithio heb oruchwyliaeth a than bwysau i gwrdd â therfynau amser.
Sgiliau arwain tîm a dirprwyo.
Gallu ysgogi eich hun ac yn ymroddedig.
Sgiliau rhyngbersonol wedi'u datblygu'n dda.
Sgiliau penderfynu a negodi.
Gallu blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.
Gallu arwain eraill a rheoli blaenoriaethau gwaith staff yn eich tîm.
Gallu cyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel.
Gwydn a phenderfynol o lwyddo.
Gallu gyrru rhaglen waith heriol ymlaen yn unigol ac fel rhan o dîm ehangach.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

### Hanfodol

Gradd neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol gyda phrofiad perthnasol.
Cymhwyster Rheoli, h.y. ILM, CMI, CIPD.

## Profiad perthnasol

### Hanfodol

Cyfrannu at reolaeth busnes cyffredinol a chyflawni prosiectau i gwrdd ag anghenion y sefydliad.
Profiad helaeth o reoli staff.
Profiad mewn prosesau adnoddau dynol a recriwtio.
Ymdrin yn effeithiol â rhanddeiliaid.
Profiad o ddatblygu/gweithredu polisïau a phrosesau.
Profiad o weinyddu busnes a chydymffurfiaeth.
Dealltwriaeth o systemau rheoli ansawdd, e.e. ISO9001.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

### Hanfodol

Tystiolaeth o sgiliau rheoli.
Gallu rheoli a blaenoriaethu llwyth gwaith.
Gallu gweithio ar sawl tasg a gweithio i derfynau amser caeth.
Sgiliau rhyngbersonol a medru gweithio â phob lefel yn y sefydliad.
Sgiliau datrys problemau.
Trwydded yrru lawn, ddilys yn y DU.
Yn gwbl wybodus o TG.
Sgiliau cyfathrebu cryf: llafar, ysgrifenedig a chyflwyno.
Profiad o gynhyrchu dogfennau o ansawdd uchel (gan gynnwys adroddiadau i fforymau a phwyllgorau amrywiol, papurau trafod/tystiolaeth ac adolygiadau) a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol.

## Gofynion iaith

### Hanfodol

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol a Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGChC yn lle cyffrous i weithio. Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 29.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio oriau hyblyg



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
- Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.